Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC56: Hierarchaeth Fuddsoddi Tir Cyflogaeth

Cynllun i'w archwilio

gan y cyhoedd

Ionawr 2025

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## 1. Cefndir

Cydnabyddir bod yna ffactorau niferus, ac weithiau cymhleth, i'w hystyried wrth chwilio am safle addas i gychwyn neu ehangu busnes. Er enghraifft, pa mor agos yw'r safle at gwsmeriaid / cyflenwyr, hygyrchedd cludiant, maint a ffurfwedd eiddo a chyfleusterau ar gyfer staff ac ymwelwyr, i enwi ychydig yn unig. Yng Nghonwy, mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn awyddus i hwyluso'r broses o safbwynt cynllunio drwy gynnig canllawiau clir i nodi safleoedd addas i fodloni gofynion busnesau lleol a / neu atynnu mewnfuddsoddwyr.

Mae'r Papur Cefndir hwn yn archwilio'r cyd-destun polisi cenedlaethol sydd y tu ôl i ganfod lleoliadau addas at ddibenion cyflogaeth, yn ail-edrych ar yr hyn sydd eisoes wedi'i fabwysiadu yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2007-2022, a thrwy ddefnyddio'r dystiolaeth hon yn awgrymu cyfeiriad posibl ar gyfer polisi'r dyfodol fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) 2018 – 2033. Gan gydnabod bod economi Conwy wedi'i greu o gyfuniad o fusnesau a gwasanaethau gwledig a threfol, mae'n bwysig bod y Papur Cefndir hwn yn mynd i'r afael â dulliau polisi i'r dyfodol y mae modd i fusnesau gwledig a threfol gael mynediad atynt. Hefyd, gwelwch Bapur Cefndir 16 – Cynllunio a'r Economi Wledig.

## 2. Y Cyd-destun Polisi Cynllunio Cenedlaethol

### 2.1 Polisi Cynllunio Cymru 12

Mae paragraff 5.6.6 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 12 yn nodi: "Ni ddylai prinder safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu atal awdurdodau rhag llunio cynigion ar gyfer mentrau priodol bach mewn aneddiadau gwledig cyfagos, yn cynnwys aneddiadau gwledig bach. Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisi meini prawf mewn cynlluniau datblygu i ystyried cynigion o'r fath os ydynt y tu allan i ffiniau anheddiad." Mae hefyd yn mynd yn ei flaen i ddweud: "Er y dylid diogelu cefn gwlad agored lle bo'n bosibl, dylai ehangiad busnesau presennol sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored gael ei gefnogi, cyn belled nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol."

Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar Gyflogaeth, PCC a TAN 23 – Datblygu Economaidd, yn sefydlu'r egwyddor o brawf cymalog ar gyfer defnyddiau cysylltiedig â chanol trefi sy'n uniongyrchol berthnasol i ddefnyddiau tir economaidd. Yn unol â hynny, wrth neilltuo tir ar gyfer defnyddiau economaidd mewn cynlluniau datblygu, neu wrth benderfynu ar geisiadau, dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio efelychu'r dull hwn o weithredu.

### 2.2 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 Datblygu Economaidd

Yn unol â TAN 23, dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio doethineb, yn dibynnu ar natur y defnydd economaidd a'i berthnasedd i leoliad penodol. Dylent roi blaenoriaeth i safleoedd oddi mewn i ffiniau aneddiadau (gan gynnwys aneddiadau newydd arfaethedig ac estyniadau trefol). Fel ail ddewis, dylent ystyried safleoedd ar gyrion aneddiadau. Fel trydydd dewis, dylent ystyried neilltuo tir mewn cefn gwlad agored, y tu allan i ardaloedd a nodir fel parthau llifogydd C1 ac C2 ar Fapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru. Ni ddylid neilltuo tir mewn lleoliadau llai ffafriol oni bai bod y manteision a geir o ganlyniad yn fwy nag unrhyw effaith negyddol a ddaw yn sgil y datblygiad.

### 2.3 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 ym mis Chwefror 2021. Y prif nodau ar gyfer economi Cymru yw:

• Cefnogi economi carbon isel a datgarboneiddio diwydiant, a thwf ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy

• Cefnogi lleoli defnyddiau tir economaidd yn gynaliadwy

• Cefnogi twf arloesedd, ymchwil a datblygu, a gwell cysylltiadau rhwng addysg uwch a diwydiant preifat

• Cefnogi datblygu gweithgynhyrchu uwch ym mhob rhanbarth

• Cydnabod pwysigrwydd sectorau allweddol y dyfodol megis peirianneg uwch, technolegau adnewyddadwy, Deallusrwydd Artiffisial, trafnidiaeth, awtomeiddio ac arloesi digidol

• Cefnogi'r economi sylfaenol a nodi dull rhanbarthol ac is-ranbarthol o ddatblygu'r economi a gyflawnir drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol

• Cefnogi datblygu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu digidol

Yng Nghonwy, mae dwy Ardal Dwf Ranbarthol wedi'u nodi – Bae Colwyn a Llandudno. Mae Cymru'r Dyfodol yn hyrwyddo dull 'canol trefi yn gyntaf' sy'n golygu bod yn rhaid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Caiff canolfannau cydweithio hefyd eu hyrwyddo o fewn pellter cerdded i gartrefi pobl o fewn trefi a lleoliadau canol tref.

**2.3 Ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi**

Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021 hefyd ac mae'n canolbwyntio ar adfer a gwydnwch yn dilyn pandemig COVID-19. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar 'bum llusern' ar gyfer goresgyn COVID-19, a sicrhau adferiad tymor canolig a thymor hwy. Sef:

• Atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol

• Ymrwymiad COVID i ddiogelu a galluogi sgiliau a swyddi

• Cyflymu ymaddasu ar gyfer adfer a ffyniant yn y dyfodol

• Magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd

• Magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd

Mae'r genhadaeth ar gyfer ailadeiladu'r economi yn nodi mai economi sy'n seiliedig ar les yw pwrpas datblygu economaidd. Mae dull cyfannol o ymdrin â'r economi, gan gydnabod ei botensial ar gyfer niwed yn ogystal â lles, yn gofyn am ffordd gyfannol o fesur cynnydd e.e. ni all Gwerth Ychwanegol Gros fod y prif fesur o lwyddiant a ffyniant mwyach. Yn hytrach mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar weld cynnydd yn y dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu'r weledigaeth ar gyfer lles fel ein piler canolog. Mae hyn yn golygu ysgogi gwelliannau i'n heffeithiau amgylcheddol, ein lles yn y gwaith a chynnydd y gymdeithas ehangach yn ei chyfanrwydd.

## 3. Y Polisi Cynllunio Lleol Presennol

### 3.1 CDLl Conwy 2007 – 2022 a fabwysiadwyd fis Hydref 2013

Mae Polisi Strategol EMP/1 yn ymwneud â diwallu anghenion cyflogaeth y fwrdeistref. Mae'r CDLl yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan safleoedd cyflogaeth presennol at yr economi, ac yn y lle cyntaf mae'n annog ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau gwag. Cafodd cyfanswm o 17.4 hectar o dir cyflogaeth newydd ei neilltuo yn yr Ardal Strategaeth Drefol (yn cynnwys safleoedd wrth gefn) a 3.6 hectar yn yr Ardal Strategaeth Wledig (yn cynnwys safleoedd wrth gefn). O ran defnyddio tir, nid yw'r holl safleoedd cyflogaeth trefol wedi'u cyflwyno ar gyfer datblygiad dosbarth B o fewn ffrâm amser y CDLl, fodd bynnag mae 15.8ha o dir cyflogaeth wedi'i ddarparu yn yr ardal drefol yn defnyddio cymysgedd o ddyraniadau'r CDLl, tir ar safleoedd wedi'u diogelu a lleoliadau eraill. Yn yr ardal wledig, er bod llawer o geisiadau twristiaeth ac amaethyddol ac ychydig o geisiadau arallgyfeirio wedi'u cyflwyno, ni chyflwynwyd unrhyw un o'r safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn y CDLl i'w datblygu.

Mae Polisi EMP/3 yn ymwneud â defnyddiau cyflogaeth newydd ar safleoedd heb eu dyrannu; mae EMP/4 yn ceisio diogelu defnyddiau B1 (swyddfa/diwydiant ysgafn), B2 (diwydiant cyffredinol) a B8 (storio/dosbarthu) presennol; mae EMP/5 yn mynd i'r afael â'r angen i wella safleoedd cyflogaeth presennol penodol ac mae EMP/6 yn caniatáu ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig gwag at ddefnydd busnes.

### 3.2. Protocol Tir Cyflogaeth

Er mwyn cefnogi'r polisi presennol lluniwyd y Protocol Tir Cyflogaeth i helpu mewnfuddsoddwyr posibl a busnesau neu ddatblygwyr presennol sy'n chwilio am safleoedd addas i gychwyn busnes neu i symud neu ehangu busnes presennol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy. Nod y ddogfen hon yn bennaf yw egluro, o safbwynt cynllunio, ble mae'r safleoedd addas wedi'u lleol a sut i fynd ati i dderbyn caniatâd cynllunio ar safleoedd o'r fath. O ran cefndir, caiff egwyddorion y cyd-destun polisïau cynllunio cenedlaethol eu harchwilio (er eu bod erbyn hyn wedi dyddio), ac yna crynodeb o bolisïau'r CDLl sy'n berthnasol i safleoedd cyflogaeth. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu canllaw cam wrth gam i nodi lleoliadau cyflogaeth addas yn y fwrdeistref. Er bod y ddogfen hon wedi'i chymeradwyo i'w cyhoeddi a'i chylchredeg i asiantau/datblygwyr masnachol a pherchnogion tir, nid yw'r ddogfen wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol fel Canllaw Cynllunio Atodol.

## 4. CDLI Newydd 2018-2033 – yr angen am bolisïau CDLI newydd a diwygiedig

### 4.1 Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy (diwygiad 2020)

Cafodd Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy, darn allweddol o sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â'r CDLI Newydd, ei adolygu yn ystod hanner olaf 2020 er mwyn deall effaith COVID-19 ar yr angen am dir cyflogaeth. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen oddeutu 15 hectar o dir hyd at 2033 – 65% ohono ar gyfer defnyddiau diwydiannol a 35% ohono ar gyfer defnyddiau swyddfa. Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cydnabod bod gan Sir Conwy cyfran uchel o ofod swyddfa o gymharu ag ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru, ac mae rhai o'r rhain yn hen ac yn adeiladau heb bwrpas, a all fod yn addas i'w trawsnewid ar gyfer defnyddiau priodol eraill. I'r gwrthwyneb, efallai bod mwy o angen am fodelau swyddfa amgen – yr "hybiau cydweithio" a gyfeirir atynt yn nogfen Cymru'r Dyfodol. Mae astudiaeth ar wahân (Canol Trefi yn Gyntaf) wedi cael ei chynnal  er mwyn edrych ar ardaloedd sydd eu hangen at ddefnydd swyddfa a'r ardaloedd nad oes eu hangen at ddefnydd swyddfa, i sicrhau bod y cyflenwad yn gallu cwrdd â'r galw.

### 4.2 Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy (2018)

Comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Lichfields i gynnal Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy (BP19) i ddeall y galw sy'n ymwneud â math a lleoliad safleoedd/tir cyflogaeth. O ran lleoliad, daeth Lichfields i'r casgliad canlynol:

Yn ôl asiantau masnachol a busnesau deellir bod y galw mwyaf ar hyd coridor yr A55 ac mewn ardaloedd trefol fel Cyffordd Llandudno, Mochdre, Bae Cinmel a Bae Colwyn. Nodwyd nifer o leoliadau allweddol fel prif fannau diwydiannol, sef:

- Parc Masnach Mochdre
- Parc Busnes Mochdre
- Parc Menter Morfa Conwy
- Parc Busnes Quinton Hazell

Mae'r farchnad swyddfeydd yng Nghonwy yn gymharol fach ac yn gynhenid, gyda diffyg mas critigol i ddenu defnyddwyr swyddfa mwy, yn arbennig yn sgil cystadleuaeth gref gan ganolfannau gerllaw sydd wedi'u sefydlu fel yng Nghaer ac yn Wrecsam. Mae'r rhan fwyaf o'r stoc swyddfa (yn ogystal â'r galw) ar hyd yr A55. Er bod yna safleoedd gyda swyddfeydd o ansawdd da, mae llawer o'r stoc canol tref/trefol yn tueddu i fod yn hen ac yn aml o ansawdd neu gyfluniad gwael. O ganlyniad, mae'r galw sy'n bodoli ar gyfer yr unedau hyn yn tueddu i fod yn gynhenid o ran natur. Fodd bynnag, ymddengys bod y tueddiad hwn yn newid gyda buddsoddiad cynyddol y sector cyhoeddus mewn swyddfeydd yn y trefi e.e. Bae Colwyn a Llandudno.

Ysgrifennwyd Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy cyn y pandemig, fodd bynnag mae yna negeseuon sy'n dal yn berthnasol i leoliad tir cyflogaeth yng Nghonwy. O ran swyddfeydd gwag, efallai bod cwmpas i ddefnyddio adeiladau swyddfa at ddefnydd amgen. Dylid defnyddio hwn i hwyluso darpariaeth gofod swyddfa sy'n adlewyrchu'r galw yn y farchnad yn well. Yn ogystal, gellir annog unedau swyddfa bach, rhad (e.e. canolfan fusnes fach) sy'n gallu darparu dewis mwy cost effeithiol na darparu gofod newydd pwrpasol. Mae hyn yn debyg i'r canolfannau cydweithio a awgrymir yn nogfen Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

## 5. Crynodeb

O edrych ar yr hyn sydd eisoes yn ei le o safbwynt polisi lleol ac ailedrych ar ganllawiau cynllunio cenedlaethol, mae'r dystiolaeth yn pwyntio at gadw dull dilyniannol o weithredu i ganfod safleoedd cyflogaeth gan alluogi mwy o hyblygrwydd ble bo'n briodol. Gall hyn gynnwys cadw prif elfennau polisi presennol EMP/3, ond ei ddiweddaru yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a'r dystiolaeth leol. Dylid cefnogi'r polisi CDLIN hwn hefyd drwy fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol Hierarchaeth Fuddsoddi Tir Cyflogaeth (sy'n debyg i'r Protocol Tir Cyflogaeth) i helpu ymgeiswyr a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau gyda'r dull dilyniannol o weithredu i ddethol safleoedd.

O ystyried y ffocws ar gynnal a datblygu busnesau gwledig, dylai'r CDLIN gynnwys polisi newydd i hwyluso estyniad busnesau gwledig y tu allan i ffiniau'r anheddiad, yn unol â PCC 12.

Gan gyfeirio at y dull dilyniannol o weithredu a rhoi'r polisi ED/3 arfaethedig ar waith, mae'r siart llif ar y dudalen nesaf yn amlinellu'r camau i'w cymryd i ganfod safle addas i gychwyn neu symud busnes. Os yw'r busnes yn gofyn am leoliad gwledig yn benodol, dylid ystyried polisïau PL/10 ac ED/6 yn y lle cyntaf, rhag ofn eu bod yn berthnasol i'r amgylchiadau dan sylw.

**Dull ar gyfer canfod safle addas:**

**Cam 1: Safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u diogelu, eiddo cyflogaeth presennol a dyraniadau'r CDLl**

Yn y lle cyntaf, dylai busnesau gysylltu â'r Swyddogion Datblygu Economaidd. Bydd swyddogion y tîm Datblygu Economaidd yn gallu rhannu gwybodaeth ynglŷn â pha eiddo/lleiniau busnes sydd eisoes ar gael. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth o Gronfa Ddata Tir Cyflogaeth yn cynnwys **eiddo a thir cyflogaeth/diwydiannol presennol sydd wedi'u diogelu neu dir newydd sydd wedi'i ddyrannu** yn y CDLl. At ddibenion B1, dylid archwilio canol trefi a chanolfannau lleol yn gyntaf. Os nad oes safleoedd neu adeiladau addas ar gael, yna dylid symud ymlaen i Gam 2.

⬇

**Cam 2: Tir llwyd yn unol â Pholisi ED/3 (yn cynnwys ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig gwag (PL10))**

Os na ellir canfod safleoedd addas dan yr opsiynau uchod, yna gellir ystyried **safleoedd tir llwyd yn unol â** pholisïau **ED/3 a PL/10.** Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gynhyrchu i arwain datblygiadau yn unol â'r polisi hwn. Os na ellir canfod safle addas, yna ewch i Gam 3.

⬇

**Cam 3: Tir glas yn unol â pholisi ED/3**

Os na ellir canfod safleoedd addas dan yr opsiynau uchod, yna gellir ystyried **safleoedd tir glas y tu allan i barthau llifogydd C1 ac C2 yn unol â pholisi ED/3.** Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gynhyrchu i arwain datblygiadau yn unol â'r polisi hwn. Fel arall, efallai bod **ailddefnyddio neu addasu adeiladau gwledig gwag yn unol â pholisi PL/10** yn opsiwn, yn dibynnu ar fath y busnes arfaethedig.

Bydd ceisiadau i ehangu cynlluniau busnesau gwledig ac arallgyfeirio ffermydd presennol mewn cefn gwlad agored, sy'n gofyn am adeiladau a thir newydd, yn derbyn cefnogaeth mewn egwyddor yn unol â **Pholisi ED/6** a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

**Atodiad 1**

**Polisi Drafft ED3**

**POLISI ED/3 – DATBLYGIADAU B1, B2, B8 NEWYDD AR SAFLEOEDD HEB EU DYRANNU**

Bydd datblygiad B1 newydd (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol, B8 (Storfa neu Ddosbarthu) neu gymysgedd o'r defnyddiau hyn yn derbyn cefnogaeth ar sail dilyniant ar safleoedd heb eu dyrannu, fel yr amlinellir yn y dull dilyniannol o weithredu isod ac yn amodol ar y meini prawf canlynol:

a) Mae'r cais yn briodol o ran ei raddfa a'i natur i'w leoliad;

b) Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar feddianwyr eiddo cyfagos nac ar yr amgylchedd;

c) Mae'r cynnig yn gynaliadwy hygyrch.

**Dull dilyniannol o weithredu:**

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod nhw wedi dilyn dull dilyniannol o weithredu wrth gyflwyno cais cynllunio ar gyfer defnyddiau dosbarth B newydd. Mae'r drefn flaenoriaeth fel a ganlyn:

**Blaenoriaeth 1** – Adeiladau a safleoedd cyflogaeth presennol yn cynnwys safleoedd wedi'u diogelu / safleoedd i'w gwella, at ddibenion B1, tir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn trefi a chanol trefi yn gyntaf yn unol â'r dull 'canol trefi yn gyntaf'.

**Blaenoriaeth 2** – Tir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn gweddill Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, canolfan wasanaethau allweddol, prif bentrefi haen 2 a mân bentrefi, yn cynnwys safleoedd mewnlenwi a datblygu hyd at y ffin. Mewn cefn gwlad agored bydd ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cael ei ystyried dan bolisi PL/10 Addasiadau Gwledig.

**Blaenoriaeth 3** – Tir glas o fewn ffiniau aneddiadau Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, canolfan wasanaeth allweddol a phrif bentrefi haen 2, yn cynnwys safleoedd mewnlenwi a datblygu hyd at y ffin.

**Blaenoriaeth 4** – Tir glas sy'n ffurfio estyniad anheddiad i ffin anheddiad o fewn Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, canolfan wasanaeth allweddol a phrif bentref haen 2.

**Blaenoriaeth 5** – Tir glas o fewn mân bentrefi, yn cynnwys safleoedd mewnlenwi a datblygu hyd at y ffin.

**Bydd estyniadau i fusnesau gwledig sy'n gofyn am adeiladau a thir newydd yn cael eu hystyried dan bolisi ED/6.**

| **Hierarchaeth gynaliadwyedd** | **Safleoedd cyflogaeth** | | **Tir a ddatblygwyd o'r blaen** | | **Tir glas** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hierarchaeth strategaeth y CDLlN** | Safleoedd cyflogaeth presennol | Safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu/dynodi/diogelu | Tir canol tref a ddatblygwyd o'r blaen | Tir arall a ddatblygwyd o'r blaen | O fewn aneddiadau | Mewnlenwi / datblygu hyd at y ffin | Estyn aneddiadau |
| **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol** | **1** | **1** | **1** | **2** | **3** | **3** | **4** |
| **Prif Ganolfan Wasanaeth** | **1** | **1** | **1** | **2** | **3** | **3** | **4** |
| **Gwledig: Prif Bentrefi Haen 2** | **1** | **Amh.** | **1** | **2** | **3** | **3** | **4** |
| **Gwledig: Mân Bentrefi** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **2** | **5** | **5** | **X** |

X – gwelwch bolisïau PL/10 ac ED/6